# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Mai 2020

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu na all y cyhoedd fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09:30 - 10:00)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

10:00

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10:00-10:05

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**2.1 SL(5)540 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

(Tudalennau 1 - 21)

**CLA(5)-14-20 - Papur 1** - Adroddiad

**CLA(5)-14-20 - Papur 2** - Rheoliadau

**CLA(5)-14-20 - Papur 3** - Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-14-20 - Papur 4** - Llythyr gan y Prif Weinidog i'r Llywydd, 24 Ebrill 2020

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

10:05-10:10

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

### 3.1 SL(5)542 - Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020

(Tudalennau 22 - 32)

**CLA(5)-14-20 - Papur 5** - Adroddiad

**CLA(5)-14-20 - Papur 6** - Rheoliadau

**CLA(5)-14-20 - Papur 7** - Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-14-20 - Papur 8** - Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 29 Ebrill 2020

## 4 Papur(au) i'w nodi

10:10-10:15

### 4.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020

(Tudalen 33)

**CLA(5)-14-20 - Papur 9** - Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 4 Mai 2020

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

10:15

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Amaethyddiaeth y DU - adroddiad drafft

10:15-10:30 (Tudalennau 34 - 51)

**CLA(5)-14-20 - Papur 10** - Adroddiad drafft

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Pysgodfeydd y DU – adroddiad drafft

10:30–11:00 (Tudalennau 52 – 88)

**CLA(5)-14-20 – Papur 11** – Adroddiad drafft

**CLA(5)-14-20 – Papur 12** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 1 Mai 2020

## 8 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru – trafodaeth ar gyfer cynllunio'r flaenraglen waith

11:00–11:20 (Tudalennau 89 – 100)

**CLA(5)-14-20 – Papur 13** – Cynllunio'r flaenraglen waith

## Dyddiad y cyfarfod nesaf – 18 Mai

# SL(5)540 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) ("y prif Reoliadau"), a daethant i rym am 12.01 a.m. ar 25 Ebrill 2020.

Diwygiwyd y prif Reoliadau o'r blaen gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020, a ddaeth i rym am 12.01 a.m. ar 7 Ebrill 2020.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 3 (cyfarwyddiadau terfynu), rheoliadau 4 – 6A (gofyniad cadw pellter corfforol), rheoliad 8 (cyfyngiadau ar adael y man lle mae pobl yn byw), rheoliad 10 (gorfodi) ac yn gwneud mân-newidiadau pellach a chanlyniadol i'r prif Reoliadau.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1), (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984").

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Diben y prif Reoliadau – y mae'r Rheoliadau hyn yn eu diwygio – yw:

- rhoi cyfyngiadau ar symudiadau unigolion, gan nodi amgylchiadau pan gânt adael y man lle y maent yn byw ac atal grwpiau o fwy na dau o bobl rhag ymgynnull, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol;
- ei gwneud yn ofynnol cau busnesau penodol a gosod gofynion ar fusnesau eraill, yn ogystal â dyletswyddau i gau llwybrau troed cyhoeddus penodol a thir, er mwyn diogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws.

At hynny, gwnaeth y prif Reoliadau ddisodli Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cau Busnes) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Cau Busnes") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Busnesau Hamdden").

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol: mae'r Rheoliadau eisoes wedi eu gwneud, ond mae angen i'r Senedd eu cymeradwyo er mwyn iddynt barhau mewn grym am fwy nag 28 diwrnod.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r ymyrraeth â hawliau unigol penodol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE.

Er na chyfeirir at unrhyw erthyglau penodol yn y Memorandwm Esboniadol hwn, roedd y Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020, yn mynd i'r afael â'r erthyglau canlynol o ran y Rheoliadau hynny: Erthygl 8 – yr hawl i barchu bywyd preifat a theuluol; Erthygl 11 – rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu; ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf – gwarchod eiddo.

Mae'n ymddangos bod yr erthyglau a nodwyd uchod mewn perthynas â rheoliadau diwygio blaenorol, yn ymwneud â'r Rheoliadau hyn. At hynny, ymddengys fod erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd – yn ymwneud â rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn (sy'n diwygio rheoliad 8 o'r prif Reoliadau).  Mae'r hawl hon yn hawl gymwysedig, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau yn yr un modd ag erthyglau 8 ac 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd. Mae'r Llywodraeth o'r farn y gellid eu cyfiawnhau at y diben o atal clefydau heintus rhag lledaenu a/neu bod yr ymyrraeth wedi'i chaniatáu ar y sail ei bod yn ceisio nod cyfreithlon, sef amddiffyn iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth i egluro pa erthyglau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn, ac er mwyn rhoi rhesymau ychwanegol i egluro pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellid cyfiawnhau ymwneud â'r hawliau unigol hyn at ddibenion y Rheoliadau hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Gwneir y Rheoliadau hyn – yn yr un modd â'r prif Reoliadau a'r rheoliadau diwygio blaenorol – wrth arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.  Yn wahanol i'r Rheoliadau Cau Busnes a'r Rheoliadau Busnesau Hamdden, nid yw Gweinidogion Cymru wedi dibynnu ar y pŵer galluogi sydd wedi ei gynnwys yn adran 45C(4)(d) o Ddeddf 1984.  Mae adran 45C(4)(d) o Ddeddf 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys cyfyngiad neu ofyniad arbennig mewn rheoliadau.  At y dibenion hyn, cyfyngiad neu ofyniad arbennig yw cyfyngiad neu ofyniad y gellir ei osod gan ynad heddwch yn rhinwedd adran 45G(2), 45H(2) neu 45I(2) o Ddeddf 1984.  Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hynny'n cynnwys cau mangre (adran 45I(2)(a) o Ddeddf 1984).

Cafodd hepgor adran 45C(4)(d) o Ddeddf 1984 o'r rhestr o bwerau galluogi y mae Gweinidogion Cymru yn dibynnu arnynt, ei godi fel pwynt technegol a oedd angen esboniad pellach.  Cafwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y rheoliadau diwygio blaenorol.  Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb i'r pwynt a godwyd mewn perthynas â'r prif Reoliadau, a oedd yn destun adroddiad i'r Aelodau a ystyriwyd gan y Cyfarfod Llawn.

Nododd ymateb Llywodraeth Cymru i'r prif Reoliadau, mewn perthynas â phwerau galluogi eu barn fel a ganlyn:

> *"ni fyddai'n ddefnyddiol nac yn gywir cyfeirio at adran 45C(4) o Ddeddf 1984 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.  Mae'r enghreifftiau a roddir yn yr is-adran honno yn benodol ac nid ydynt*

*yn adlewyrchu natur bellgyrhaeddol y darpariaethau o sylwedd yn y Rheoliadau; darpariaethau yr ystyriwn eu bod yn angenrheidiol ac yn gymesur yng ngoleuni natur yr argyfwng iechyd presennol ac yn unol â'r math o ddarpariaeth a ragwelwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig pan ddeddfodd Ran 2A o Ddeddf 1984."*

Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn glir ac yn ddefnyddiol iawn, gan nodi y ffordd y cafodd adrannau 45C(1) a (3)(c) o Ddeddf 1984 eu drafftio fel pwerau galluogi eang ac nad oes angen nodi adran 45C(4)(d) o Ddeddf 1984 yn benodol.

Yn wyneb yr ymateb defnyddiol hwnnw, yr unig fater sy'n weddill yw bod y dull a gymerwyd wrth ddibynnu ar bwerau galluogi ar gyfer y Rheoliadau hyn, a'r prif Reoliadau a'r rheoliadau diwygio blaenorol, yn wahanol i'r hyn a gymerwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau Cau Busnes a'r Rheoliadau Cau Busnesau Hamdden.  Nid yw hynny'n effeithio ar ddilysrwydd y Rheoliadau hyn mewn unrhyw ffordd, ond mae'n arwain at anghysondeb rhwng y dull gweithredu yn y Rheoliadau hyn a'r dull yn y Rheoliadau Cau Busnes (sydd bellach wedi'u dirymu) a'r Rheoliadau Cau Busnesau Hamdden.

Mae angen ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â'r anghysondeb rhwng pwerau galluogi y dibynnir arnynt yn rheoliadau Llywodraeth Cymru.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Mai 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 452 (Cy. 102)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae rheoliad 2 yn rhoi yn lle paragraff (4) o reoliad 3 o'r prif Reoliadau ddarpariaeth fwy hyblyg sy'n galluogi i ofyniad neu gyfyngiad a osodir gan y prif Reoliadau gael ei derfynu mewn perthynas â busnesau neu wasanaethau penodol (neu ddisgrifiadau o fusnesau neu wasanaethau), categorïau penodol o bersonau neu ardaloedd penodol o Gymru. Mae paragraff newydd (4A) hefyd wedi ei fewnosod yn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

rheoliad 3 o'r prif Reoliadau er mwyn ei gwneud yn glir nad yw terfynu gofyniad neu gyfyngiad yn effeithio ar bethau sy'n digwydd cyn i'r terfynu gymryd effaith.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliadau 4, 5, 6 a 6A o'r prif Reoliadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n gyfrifol am fusnesau neu wasanaethau a gynhelir mewn mangreoedd o'r mathau a restrir isod gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre (oni bai bod y personau yn aelodau o'r un aelwyd neu'n ofalwr a'r person y gofelir amdano), sicrhau bod nifer y personau y caniateir iddynt fynd i'r fangre wedi ei gyfyngu er mwyn galluogi i'r mesurau hynny gael effaith, a sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i'r fangre. Y mangreoedd yw—

(a) mangreoedd a ddefnyddir fel caffis neu ffreuturau mewn ysbyty, cartref gofal, ysgol, carchar neu sefydliad milwrol neu a ddefnyddir i ddarparu bwyd a diod i bersonau digartref;

(b) mangreoedd sydd, er ei bod yn ofynnol yn gyffredinol iddynt fod ar gau o dan reoliad 4(4) o'r prif Reoliadau, ar agor at ddibenion darlledu, neu ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol, neu i ddarparu gwasanaethau ar lein, dros y ffôn neu drwy'r post;

(c) llety gwyliau y caniateir iddo aros ar agor i ddarparu llety i bersonau penodol, neu at ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano, neu i ddarparu gwasanaethau ar lein, dros y ffôn neu drwy'r post;

(d) unrhyw ran o siop y byddai fel arall yn ofynnol iddi gau o dan reoliad 6(2) o'r prif Reoliadau ond y caniateir iddi aros ar agor i ymateb i archebion ac ymholiadau a geir ar lein, dros y ffôn neu drwy'r post (er enghraifft i ddarparu cyfleusterau i godi archebion a osodir ar lein, a elwir fel arfer yn wasanaeth "clicio a chasglu").

Mae rheoliad 4 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i reoliad 8 o'r prif Reoliadau sy'n ymwneud â'r gofyniad nad yw person yn gadael y man lle y mae'n byw heb esgus rhesymol, gan gynnwys—

(a) diwygio paragraff (1) i egluro bod y cyfyngiad ar adael y man lle y mae person yn byw heb esgus rhesymol hefyd yn cynnwys aros i ffwrdd o'r man hwnnw heb esgus rhesymol;

(b) egluro'r drafftio ym mharagraff (2)(a) er mwyn dileu tawtoleg cael "angen i gael

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

angenrheidiau sylfaenol" a'i gwneud yn glir y gall personau fynd i fanciau a sefydliadau tebyg i dynnu arian a'i adneuo;

(c) yn ei gwneud yn glir fod gwneud ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd yn esgus rhesymol os oes ei angen oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd penodol;

(d) pennu bod ymweld â chladdfa neu ardd goffa i dalu teyrnged yn esgus rhesymol.

Mae rheoliad 5 yn gwneud diwygiadau i reoliad 10 o'r prif Reoliadau i egluro cymhwysiad y darpariaethau gorfodi.

Mae rheoliad 6 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol pellach i'r prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

# 2020 Rhif 452 (Cy. 102)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

*Gwnaed am 11:45 a.m. ar 24 Ebrill 2020*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru am 2:45 p.m. ar 24 Ebrill 2020*

*Yn dod i rym am 12.01 a.m. ar 25 Ebrill 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, dod i rym a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 a deuant i rym am 12.01 a.m. ar 25 Ebrill 2020.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**).

**Cyfarwyddydau terfynu**

**2.** Yn rheoliad 3 o'r prif Reoliadau, yn lle paragraff (4) rhodder—

"(4) Caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny gan roi sylw i'r angen i atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint yng Nghymru â'r coronafeirws, gyhoeddi cyfarwyddyd sy'n terfynu gofyniad neu gyfyngiad mewn perthynas ag —

(a) busnes neu wasanaeth penodedig neu ddisgrifiad penodedig o fusnes neu wasanaeth;

(b) disgrifiad penodedig o bersonau;

(c) rhan benodedig o Gymru.

(4A) Nid yw terfynu cyfyngiad neu ofyniad drwy gyfarwyddyd yn effeithio—

(a) ar unrhyw gosbedigaeth yr eir iddi mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd a gyflawnir o dan y Rheoliadau hyn cyn i'r cyfyngiad neu'r gofyniad gael ei derfynu,

(b) ar unrhyw hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir o dan reoliad 13 mewn perthynas ag ymddygiad sy'n digwydd cyn i'r cyfyngiad neu'r gofyniad gael ei derfynu, neu

(c) ar unrhyw ymchwiliad, achos cyfreithiol neu rwymedi mewn cysylltiad—

---

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/399 (Cy. 88)).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) ag unrhyw drosedd neu ymddygiad o'r fath, neu

(ii) ag unrhyw drosedd honedig o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni cyn i'r cyfyngiad neu'r gofyniad gael ei derfynu,

a chaniateir cychwyn, parhau neu orfodi unrhyw ymchwiliad, achos cyfreithiol neu rwymedi o'r fath, a chaniateir gosod unrhyw gosbedigaeth neu gosb o'r fath, fel pe na bai'r terfyniad wedi digwydd."

**Gofyniad i gynnal pellter corfforol mewn perthynas â mangreoedd penodol**

**3.**—(1) Mae rheoliadau 4, 5, 6 a 6A o'r prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 4(5) mewnosoder—

"(5A) Mae paragraff (5B) yn gymwys—

(a) i fangre a ddefnyddir i gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a grybwyllir yn is-baragraff (1)(a), (b) neu (c) o baragraff 2 o Atodlen 1, neu

(b) pan fo mangre a ddefnyddir i gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir yn Rhan 2 neu 3 o Atodlen 1 wedi ei defnyddio at ddiben a grybwyllir ym mharagraff (5).

(5B) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes neu ddarparu'r gwasanaeth, yn ystod cyfnod yr argyfwng, gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

(a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr),

(b) nad yw personau ond yn cael mynediad i'r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac

(c) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i'r fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr)."

(3) Ar ôl rheoliad 5(3A) mewnosoder—

"(3B) Mae paragraff (3C) yn gymwys pan fo mangre a ddefnyddir ar gyfer busnes a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1 wedi ei defnyddio—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) i ddarparu llety yn unol â pharagraff (3), neu

(b) i gynnal y busnes yn unol â pharagraff (3A).

(3C) Pan fo’r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i’r person sy’n gyfrifol am gynnal y busnes, yn ystod cyfnod yr argyfwng, gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

(a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o’r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a’r person sy’n cael cymorth gan y gofalwr),

(b) nad yw personau ond yn cael mynediad i’r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac

(c) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy’n aros i fynd i’r fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o’r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a’r person sy’n cael cymorth gan y gofalwr).”

(4) Yn rheoliad 6, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Pan na fo mangre wedi ei chau oherwydd ei bod yn fangre sydd ei hangen er mwyn cynnal busnes fel y’i caniateir gan baragraff (2)(a), rhaid i’r person sy’n gyfrifol am gynnal y busnes, yn ystod cyfnod yr argyfwng, gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

(a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o’r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a’r person sy’n cael cymorth gan y gofalwr),

(b) nad yw personau ond yn cael mynediad i’r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac

(c) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy’n aros i fynd i’r fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o’r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a’r person sy’n cael cymorth gan y gofalwr).”

(5) Yn rheoliad 6A, yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i fangre—

(a) a ddefnyddir i gynnal busnes, neu ddarparu gwasanaeth, a restrir yn Atodlen 1, neu

(b) y mae rheoliad 6(2A) yn gymwys iddi. ”

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Cyfyngiad ar bersonau yn gadael y man lle y maent yn byw neu fod y tu allan iddo**

**4.**—(1) Mae rheoliad 8 o'r prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), ar ôl "byw" mewnosoder "neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw".

(3) Ym mharagraff (2)—

(a) yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) i gael cyflenwadau oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1 gan gynnwys—

(i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini yn yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid yn yr aelwyd) neu ar gyfer personau hyglwyf;

(ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad yr aelwyd, neu aelwyd person hyglwyf;

(aa) i gael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 38 neu 39 o Atodlen 1 neu i adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;"

(b) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) i wneud ymarfer corff, ddim mwy nag unwaith y dydd (neu'n amlach os oes angen hyn oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd penodol), naill ai—

(i) ar ei ben ei hun,

(ii) gydag aelodau eraill o aelwyd y person, neu

(iii) gyda gofalwr y person;"

(c) ar ôl is-baragraff (g) mewnosoder—

"(ga) i ymweld â mynwent, claddfa neu ardd goffa i dalu teyrnged i berson ymadawedig;"

(d) yn is-baragraff (i)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle "blentyn y person" rhodder "blentyn y mae'r person yn rhiant mewn perthynas ag ef, neu y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto, neu ofal drosto";

(ii) ym mharagraff (iii), yn y testun Saesneg, yn lle "Department of Work" rhodder "Department for Work";

(e) yn is-baragraff (l), yn lle "fo'n angenrheidiol" rhodder "na fo modd gohirio'r symud".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Gorfodi**

**5.**—(1) Mae rheoliad 10 o'r prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) hepgorer "os yw'r person perthnasol yn credu'n rhesymol";

(b) yn is-baragraff (a)—

(i) ar y dechrau mewnosoder "os oes gan y person perthnasol sail resymol dros amau";

(ii) ar ôl "4," mewnosoder "5(3C),";

(c) yn is-baragraff (b), ar y dechrau mewnosoder "os yw'r person perthnasol yn ystyried".

(3) Ym mharagraff (2), yn lle "person perthnasol yn ystyried" rhodder "gan berson perthnasol sail resymol dros amau".

(4) Yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Caiff person perthnasol—

(a) wrth arfer y pŵer ym mharagraff (2)(a) neu (b), gyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r person perthnasol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol;

(b) defnyddio grym rhesymol wrth arfer y pŵer ym mharagraff (2)(b)."

(5) Ym mharagraff (5), yn lle "ddiben paragraff (4)" rhodder "ddibenion y rheoliad hwn".

(6) Ym mharagraff (7), yn lle "person perthnasol yn ystyried" rhodder "gan berson perthnasol sail resymol dros amau".

(7) Yn lle paragraff (8) rhodder—

"(8) Caiff person perthnasol sy'n arfer y pŵer ym mharagraff (7)—

(a) i gyfarwyddo cynulliad i wasgaru, neu

(b) i fynd â pherson i'r man lle y mae'n byw,

ddefnyddio grym rhesymol, os yw'n angenrheidiol, wrth arfer y pŵer.

(8A) Pan fo gan berson perthnasol sail resymol dros amau bod person ("P") mewn cynulliad yn groes i reoliad 8(5) a'i fod yn blentyn gydag unigolyn ("U") a chanddo gyfrifoldeb dros P—

(a) caiff y person perthnasol gyfarwyddo U i fynd â P i'r man lle y mae P yn byw, a

(b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

neu gyfarwyddiad a roddir gan y person perthnasol i P.

(8B) Ni chaiff person perthnasol arfer pŵer ym mharagraff (7) neu (8A) ond os yw'r person perthnasol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny."

(8) Ym mharagraff (9)—

(a) yn lle "Caiff person perthnasol" rhodder "Os yw person perthnasol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddibenion atal, neu derfynu, torri rheoliad 9(4), caiff y person perthnasol";

(b) ar ôl "rhesymol" mewnosoder ", os yw'n angenrheidiol,".

(9) Ym mharagraff (12), ar ôl "4," mewnosoder "5(3C),".

**Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**

**6.**—(1) Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3)(e), ar ôl paragraff (iii) mewnosoder—

"(iv) unrhyw blentyn;

(v) unrhyw berson sy'n oedolyn hyglwyf o fewn yr ystyr a roddir i "vulnerable adult" gan adran 60(1) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf(**1**)."

(3) Yn rheoliad 4(5)—

(a) yn is-baragraff (a), ar ôl "Ran 2" mewnosoder "o Atodlen 1";

(b) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) o fangre a ddefnyddir ar gyfer y busnesau neu'r gwasanaethau a restrir yn Rhan 2 neu 3 o Atodlen 1 at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano;"

(c) yn is-baragraff (c)(ii), hepgorer "archebion".

(4) Yn rheoliad 5(3A), hepgorer is-baragraff (a).

(5) Yn rheoliad 6(2)(a)(ii), ar ôl "archebion" mewnosoder "neu ymholiadau".

(6) Yn rheoliad 7—

(a) yn y testun Cymraeg, yn lle "cam", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "mesur";

(**1**) 2006 p. 47. Diwygiwyd y diffiniad o "vulnerable adult" yn adran 60(1) gan adran 65(2)(b) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) yn y testun Cymraeg, yn lle "cymrir", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "cymerir";

(c) yn nhestun Cymraeg paragraff (4), hepgorer "wedi ei gymryd";

(d) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(4ZA) Nid yw paragraff (3) yn gymwys i'r tir o amgylch amlosgfa, gan gynnwys unrhyw gladdfa neu ardd goffa.";

(e) yn nhestun Cymraeg paragraff (5)(b), hepgorer "wedi ei gymryd".

(7) Yn rheoliad 7(A)(1)—

(a) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) rheoliad 4(5B),

(ab) rheoliad 5(3C),";

(b) yn is-baragraff (b), ar ôl "6(1)" mewnosoder "neu (2A)";

(c) yn y testun Cymraeg, yn y geiriau ar ôl is-baragraff (d), yn lle "camau" rhodder "mesurau".

(8) Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (2)(d)—

(i) yn y testun Cymraeg, yn lle "cymorth" rhodder "cynhorthwy";

(ii) ar ôl "cymorth brys" mewnosoder "i unrhyw berson";

(b) ym mharagraff (2)(m), yn y testun Cymraeg, yn lle "newid" rhodder "niwed";

(c) ym mharagraff (5)(d)(iii), ar ôl "cynhorthwy brys" mewnosoder "i unrhyw berson".

(9) Yn rheoliad 12(1)(a), ar ôl "4," mewnosoder "5(3C),".

(10) Yn Atodlen 1—

(a) yn nhestun Cymraeg paragraff 2(2)(b), yn lle "pan y cymrir pob cam" rhodder "pan gymerir pob mesur";

(b) ym mharagraff 22, ar ôl "ac eithrio" mewnosoder "marchnadoedd da byw a";

(c) ym mharagraff 24, ar y diwedd mewnosoder "(ac eithrio arwerthiannau da byw)";

(d) ym mharagraff 38, yn lle "a pheiriannau" rhodder ", clybiau cynilo, peiriannau arian parod ac ymgymeriadau sydd, o ran eu busnes, yn gweithredu swyddfeydd cyfnewid arian cyfred, yn trawsyrru arian (neu unrhyw gynrychiolaeth o arian) drwy unrhyw ddull neu sieciau arian parod sydd wedi eu gwneud yn daladwy i gwsmeriaid."

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
At 11:45 a.m. ar 24 Ebrill 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

24 Ebrill 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (“y prif Reoliadau”) sydd—

- yn gosod cyfyngiadau ar symudiad unigolion, gan nodi amgylchiadau lle cânt adael y man lle maent yn byw ac atal cynulliadau o grwpiau o fwy na dau o bobl, ac;
- yn ei gwneud yn ofynnol i gau rhai busnesau a gosod gofynion ar fusnesau eraill, yn ogystal â gosod dyletswyddau i gau llwybrau a thir cyhoeddus penodol, er mwyn diogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o’r coronafeirws.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’i gymeradwyo ganddo. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

<u>Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.</u>

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae’r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i’r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur. Mewn sawl darpariaeth ychwanegir at y rhestr o esgusodion rhesymol penodedig, y caiff pobl ddibynnu arnynt i adael y man lle maent yn byw, neu i aros i ffwrdd o’r man hwnnw, gan gynnwys yr angen i bobl sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau penodol ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd a chaniatáu i bobl ymweld â mynwent, claddfa neu ardd goffa i dalu teyrnged i berson ymadawedig.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i “the appropriate Minister” ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae’r diwygiadau a wneir drwy’r Rheoliadau hyn yn cynnwys:

- Ei gwneud yn ofynnol i gaffis sy’n agored i’r cyhoedd mewn ysbytai, yn ogystal â ffreuturau mewn ysgolion, carchardai a’r rhai at ddefnydd y lluoedd arfog, sicrhau bod yr holl fesurau cadw pellter corfforol rhesymol yn eu lle.

- Ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sy’n darparu cyfleusterau gwasanaeth “archebu a chasglu” gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cedwir pellter o 2 fetr rhwng pobl yn yr eiddo lle darperir y cyfleusterau hynny (a rhwng pobl sy’n aros i fynd i’r eiddo hwnnw). Caniateir eisoes i gyfleusterau “clicio a chasglu” aros ar agor, ac mae’r diwygiad hwn yn sicrhau eu bod yn ddarostyngedig i’r un gofynion ag unrhyw sefydliad arall sy’n cael aros ar agor o dan y rheoliadau.

- Diwygio’r gofyniad na chaiff rhywun adael y man lle mae’n byw heb esgus rhesymol er mwyn darparu na chaiff rhywun adael y man lle mae’n byw nac aros i ffwrdd o’r man hwnnw heb esgus o’r fath.

- Caniatáu i gyfnewidfeydd arian cyfred, clybiau cynilo a gwasanaethau trosglwyddo arian aros ar agor fel y gall pobl gael at arian ac anfon arian at bobl eraill.

- Ehangu’r diffiniad o berson agored i niwed er mwyn cynnwys grwpiau eraill o bobl a allai gael budd o gymorth a phobl y byddai darparu cyflenwadau etc yn gyfystyr ag “esgus rhesymol” iddynt i fod i ffwrdd o fan preswylio rhywun.

- Ehangu’r esgus rhesymol i adael y man lle rydych yn byw i ymarfer corff er mwyn caniatáu ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd pan fo hynny’n angenrheidiol oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd penodol. Er enghraifft, efallai fod rhywun ag awtistiaeth yn cael ei gynghori i ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd yn rhan o amserlen benodedig.

- Ei gwneud yn glir bod mynd i fynwent neu gladdfa arall neu ardd goffa i dalu teyrnged i berson ymadawedig yn esgus rhesymol i adael y man lle rydych yn byw.

Yn ogystal, mae diwygiadau technegol pellach wedi’u gwneud i’r drafftio o ran:

- Egluro’r disgrifiad o ‘blentyn y person’ mewn perthynas â’r esgus rhesymol i adael y man lle mae’r person yn byw er mwyn cael at gyfleusterau gofal plant neu gyfleusterau addysg.

- Gwelliannau drafftio o ran yr esgusodion rhesymol a restrir yn is-baragraffau (a) ac (l) o reoliad 8(2) i ddatrys natur ailadroddus y drafftio gwreiddiol.

- Egluro bod mynd i’r banc neu sefydliad tebyg i dynnu arian a’i adneuo yn esgus rhesymol.

- Sicrhau cysondeb yn y rhesymau dros ofyn i fusnesau Rhan 2 (diwylliannol a hamdden) a Rhan 3 (llety gwyliau) agor eiddo, sef at unrhyw ddiben ar gais awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru.

- Sicrhau bod mesurau cadw pellter corfforol yn eu lle mewn busnesau y mae awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru yn gofyn iddynt agor.

- Egluro’r pwerau gorfodi yn rheoliad 10 o’r prif Reoliadau, er mwyn sicrhau cysondeb o ran y prawf y mae swyddog i’w ddefnyddio i benderfynu a ddylai arfer y pŵer gorfodi ac egluro’r pwerau sydd ar gael mewn perthynas â gwasgaru pobl sydd wedi ymgynnull.

- Testun Cymraeg y prif Reoliadau er mwyn sicrhau cysondeb ieithyddol.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru barhau i adolygu'r angen am y cyfyngiadau bob 21 diwrnod. Cyn gynted ag y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried nad oes angen cyfyngiad neu ofyniad mwyach i atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad yr haint coronafeirws yng Nghymru, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd i’w derfynu.

Bydd y prif Reoliadau (a’r diwygiadau hyn) yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y deuant i rym – daethant i rym ar 27 Mawrth 2020 felly byddant yn dod i ben ar 27 Medi 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo’r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 11 Mawrth 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r prif swyddogion meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy’n deillio o’r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae'r cyfyngiadau yn ffurfio rhan o ymateb y DU i’r coronafeirws. Mae cyfyngiadau wedi'u rhoi yn eu lle hefyd gan reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â busnesau, mannau cyhoeddus a symudiad unigolion yn Lloegr.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o’r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau diwygio hyn. Mae unigolion a busnesau wedi cael gwybod am y cyfyngiadau yn y prif Reoliadau drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

Ni fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

24 Ebrill 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 o dan adrannau 45C(1), (3)(c), (4)(d), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 a ddaw i rym heddiw ar 24 Ebrill 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn brys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 21 Mai 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu’r pwyllgorau perthnasol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a’r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(5)542 – Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud rhanddirymiad o Reoliad (UE) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin. O dan y Rheoliadau hyn, mae'r gofynion o ran tyfu amrywiaeth o gnydau wedi eu datgymhwyso yng Nghymru mewn cysylltiad â blwyddyn hawlio 2020.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn "gwneud cadarnhaol".

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 wedi ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig (o'r diwrnod Ymadael) yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2) ond dim ond ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Mae Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer parhau i dalu taliadau uniongyrchol i ffermwyr ar gyfer blwyddyn hawlio 2020.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Mai 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Erthygl 71A(3) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu, neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2020 Rhif 470 (Cy. 108)**

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhanddirymu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin. O dan y Rheoliadau hyn, mae'r gofynion o ran tyfu amrywiaeth o gnydau wedi eu datgymhwyso yng Nghymru mewn cysylltiad â blwyddyn hawlio 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Erthygl 71A(3) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu, neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 470 (Cy. 108)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Ebrill 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *29 Ebrill 2020* |
| *Yn dod i rym* | *30 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan Erthyglau 69(1) a 70(4) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

.

amaethyddol cyffredin(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, er mwyn datrys problemau sy'n deillio o lifogydd yng Nghymru, rhanddirymu'r darpariaethau yn y Rheoliad hwnnw ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 mewn cysylltiad â'r gofynion o ran tyfu amrywiaeth o gnydau, a bod cyfiawnhad dros wneud hynny, ac mae rhychwant a chyfnod y rhanddirymiad hwnnw, ym marn Gweinidogion Cymru, yn hollol angenrheidiol.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Ebrill 2020.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013" yw Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ac sy'n diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 637/2008 a Rheoliad y

---

(**1**) Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ac sy'n diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 637/2008 a Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 608). Mae Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 wedi ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2) ond dim ond ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 (gweler adran 1(2)(a) o'r Ddeddf honno ac adran 1(7) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "claim year"). Roedd y Ddeddf hefyd yn ymgorffori deddfwriaeth arall yr UE sy'n ymwneud â chynllun taliadau uniongyrchol y PAC ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mae Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer parhau i dalu taliadau uniongyrchol i ffermwyr ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 (roedd Erthygl 137 o'r Cytundeb ar Ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon â'r Undeb Ewropeaidd (19 Hydref 2019) yn darparu nad yw Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 yn gymwys i'r DU ar gyfer blwyddyn hawlio 2020). Mae Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 wedi ei ddiwygio gan reoliadau 2, 3(4) a 7 o Reoliadau Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/91). Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn ymdrin ag unrhyw fethiant yn Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n codi o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn diwygio Erthygl 69(1) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 fel bod y pŵer i wneud rhanddirymiadau yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (gweler Erthygl 4(1)(r) ac (s) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 am y diffiniadau o "relevant authority" ac "appropriate authority"). Mae diwygiadau eraill i Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 ond nid ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

.

Cyngor (EC) Rhif 73/2009 (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 608), fel y mae'n ffurfio rhan o gyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020(**1**).

(5) Mae i'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013.

**Rhanddirymu'r gofynion o ran tyfu amrywiaeth o gnydau**

**2.** At ddibenion Erthygl 43(1) (taliadau uniongyrchol: gofyniad i gydymffurfio ag arferion amaethyddol sy'n llesol i'r hinsawdd a'r amgylchedd) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013—

(a) nid yw'r darpariaethau a ganlyn yn Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 yn cael effaith mewn cysylltiad â hectarau cymwys yng Nghymru—

(i) Erthygl 43(2)(a) (tyfu amrywiaeth o gnydau fel un o'r arferion amaethyddol sy'n llesol i'r hinsawdd a'r amgylchedd);

(ii) Erthygl 44 (gofynion o ran tyfu amrywiaeth o gnydau);

(iii) Atodiad IX, Adran I, paragraff (1) (rhestr o arferion sy'n cyfateb i dyfu amrywiaeth o gnydau);

(b) mae is-baragraff cyntaf Erthygl 43(9) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 yn cael effaith mewn perthynas â hectarau cymwys yng Nghymru fel pe bai'r cyfeiriad at 44 wedi ei hepgor.

**3.**—(1) Mae rheoliad 2 yn cael effaith hyd at ddiwedd blwyddyn hawlio 2020.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae "blwyddyn hawlio 2020" i'w ddehongli yn unol ag adran 1(7) o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
28 Ebrill 2020

(**1**) 2020 p. 2.

**Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020**

**Memorandwm Esboniadol**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth o fewn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ac fe'i gosodir gerbron y Senedd ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020.

Lesley Griffiths AC
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
Ebrill 2020

## 1. Disgrifiad

1.1 Bydd Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020 ("yr offeryn") yn eithrio ffermwyr yng Nghymru rhag yr angen i ddilyn y gofynion o ran tyfu amrywiaeth o gnydau ar gyfer Cynllun Taliad Sylfaenol 2020 yn unig.

1.2. Mae'r offeryn yn addasu cymhwysiad y darpariaethau yn Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 637/2008 a Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 608 ("Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r offeryn yn cael ei osod gan ddefnyddio pwerau a roddir i Weinidogion Cymru o dan Erthyglau 69(1) a 70(4) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013.

Mae Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 wedi ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2) ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Mae Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer parhau i dalu taliadau uniongyrchol i ffermwyr ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Roedd Erthygl 137 o'r Cytundeb ar Ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon â'r Undeb Ewropeaidd (19 Hydref 2019) yn darparu nad yw Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 yn gymwys i'r DU ar gyfer blwyddyn hawlio 2020.

Mae Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 wedi ei ddiwygio gan reoliadau 2, 3(4) a 7 o Reoliadau Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/91) ("Rheoliadau 2020"). Mae'r diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2020 yn ymdrin ag unrhyw fethant yn Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n codi o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, roedd Rheoliadau 2020 yn diwygio Erthygl 69(1) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 fel bod y pŵer i wneud rhanddirymiadau yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (gweler Erthygl 4(1)(r) ac (s) am y diffiniadau o "relevant authority" ac "appropriate authority"), ac yn mewnosod Erthygl 70(4) sy'n darparu y caiff Rheoliadau gynnwys darpariaethau canlyniadol, atodol a throsiannol a darpariaethau arbed.

Mae Erthygl 69(1) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n angenrheidiol ac y mae cyfiawnhad drostynt mewn argyfwng er mwyn datrys problem benodol. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, er mwyn datrys y problemau penodol sy'n codi o'r llifogydd a'r tywydd eithafol a welwyd dros y gaeaf yng Nghymru, arfer pwerau argyfwng er mwyn rhanddirymu'r darpariaethau yn Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 mewn cysylltiad â'r gofynion o ran tyfu amrywiaeth o gnydau, a bod cyfiawnhad dros wneud hynny.

Nid yw'r rhanddirymiad ond yn gymwys ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Caiff "blwyddyn hawlio 2020" ei ddiffinio drwy gyfeirio at adran 1(7) o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2) sy'n darparu bod "claim year" gyda blwyddyn yn ei ddilyn, yn golygu'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau gydag 1 Ionawr yn y flwyddyn honno. Mae'r rhanddirymiad, felly, yn para llai na 12 mis yn unol ag Erthygl 69(3) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013.

Mae Erthygl 71(3) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan Erthygl 69(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gwnaed-cadarnhaol.

Bu'n rhaid aros i Reoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020 ("Rheoliadau 2020") gael eu gwneud cyn gwneud yr offeryn hwn er mwyn sicrhau bod y dull o weithredu o ran diffiniadau a dehongli yn gyson. Mae'r diwygiadau canlyniadol sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau 2020 yn angenrheidiol gan fod deddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE wedi ei hymgorffori yng nghyfraith y DU ar y Diwrnod Ymadael, yn hytrach nag ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu. Mae'r diwygiadau yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth a ddargedwir ar Daliadau Uniongyrchol yn cael ei thrin yn yr un ffordd â deddfwriaeth o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n angenrheidiol o ganlyniad i Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ar gyfer y DU gyfan. Gwnaed Rheoliadau 2020 ar 27 Ebrill 2020, fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 28 Ebrill a daethant i rym ar 30 Ebrill.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Ers mis Medi 2019, mae Cymru wedi gweld glawiad uwch na'r cyfartaledd. Yn ogystal â hynny, mae Storm Ciara a Storm Dennis wedi achosi llifogydd helaeth ar draws Cymru.

3.2 Mae rhanddeiliaid ffermio wedi adrodd bod ffermwyr wedi cael trafferthion wrth dyfu cnydau o ganlyniad i hyn, naill ai am nad ydynt yn gallu cael mynediad at dir sydd o dan ddŵr neu am fod y tir yn rhy wlyb i blannu cnydau ynddo. Gallai hyn gael effaith ar eu gallu i fodloni'r gofynion ar dyfu amrywiaeth o gnydau ar gyfer Cynllun Taliad Sylfaenol 2020. Mae methu â bodloni'r gofynion ar dyfu amrywiaeth o gnydau yn golygu nad yw cais yn gymwys ar gyfer elfen wyrddu'r Cynllun Taliad Sylfaenol, sy'n werth oddeutu 30% o gyfanswm gwerth y Cynllun.

3.3 Mae'r rheolau presennol ar dyfu amrywiaeth o gnydau yn ei gwneud yn ofynnol:

(a) ar ddaliadau sydd â rhwng 10 a 30 hectar o dir âr, bod rhaid tyfu o leiaf ddau gnwd gwahanol ar y tir hwnnw ac na chaiff y cnwd mwyaf orchuddio mwy na 75% o'r tir âr hwnnw; a

(b) ar ddaliadau sydd â mwy na 30 hectar o dir âr, bod rhaid tyfu o leiaf dri chnwd gwahanol ar y tir hwnnw, na chaiff y cnwd mwyaf orchuddio mwy na 75% o'r tir âr hwnnw ac na chaiff y ddau gnwd mwyaf gyda'i gilydd orchuddio mwy na 95% o'r tir âr hwnnw.

3.4 Yng Nghymru yn 2019, roedd yn ofynnol i 405 o ffermwyr fod â 3 chnwd, ac roedd yn ofynnol i 127 o ffermwyr eraill fod â 2 gnwd er mwyn bodloni'r rheolau ar dyfu amrywiaeth o gnydau a bod yn gymwys ar gyfer y taliadau Gwyrddu.

3.5 Bydd yr offeryn hwn yn cael gwared ar y gofyniad i dyfu amrywiaeth o gnydau yn gyfan gwbl ar gyfer blwyddyn 2020 y Cynllun Taliad Sylfaenol. Bydd hyn yn golygu na fydd ffermwyr yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â'r gofynion o ran tyfu amrywiaeth o gnydau i blannu mwy nag un cnwd yn 2020, a hefyd na fydd angen iddynt ddarparu unrhyw dystiolaeth i ddangos eu bod wedi ceisio cydymffurfio, ond eu bod wedi methu â gwneud hynny am resymau 'force majeure', er mwyn cael taliad llawn.

3.6 Bydd ffermwyr Cymru yn gymwys i gael taliad Gwyrddu llawn drwy ddatganiadau tir pori parhaol ac Ardaloedd â Ffocws Ecolegol yn unig.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

<u>Rheoliad (EU) 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor</u>

4.1 Mae rheoliad 2 o'r offeryn hwn yn datgymhwyso Erthyglau 43(2)(a) a 44 ac Atodiad IX, Adran I, paragraff (1) of Reoliad (EU) 1307/2013 mewn cysylltiad â blwyddyn hawlio 2020 o ran tyfu amrywiaeth o gnydau. Mae rheoliad 3 o'r offeryn hwn yn cadarnhau nad yw rheoliad 2 ond yn cael effaith ar gyfer blwyddyn hawlio 2020, sy'n cael ei ddiffinio drwy gyfeirio at adran 1(7) o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020.

## 5. Ymgynghori

5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cael sylwadau gan nifer o randdeiliaid yn gofyn am lacio'r gofynion o ran tyfu amrywiaeth o gnydau. Hefyd, dangosodd ymgynghoriad llafar, cyflym iawn, gyda rhanddeiliaid mawr fod cefnogaeth gref i'r newid hwn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei lunio ar gyfer yr offeryn hwn gan nad yw'n cael effaith ar lawer o fusnesau a chan fod y symiau sydd o dan sylw yn is na'r trothwy ar gyfer llunio Asesiad Effaith.

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref – MA/LG/1273/20

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

29 Ebrill 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020**

Cafodd Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020 eu gwneud ar 28 Ebrill o dan y pwerau a roddir gan Erthyglau 69(1) a 70(4) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ("Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013"). Mae'r Rheoliadau yn dod i rym ar 30 Ebrill 2020.

Atodaf gopi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig y bwriadaf ei osod ar ôl i'r offeryn statudol gael ei gofrestru.

Yn unol ag Erthygl 71A(3) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013, rhaid gosod yr offeryn hwn gerbron Senedd Cymru a rhaid iddi ei gymeradwyo erbyn 1 Mehefin 2020 er mwyn iddo barhau mewn grym. Dan yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol a chaiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol ei hadrodd. Efallai y byddai'n dda i chi wybod fy mod yn bwriadu trafod yr is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 20 Mai 2020.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Mick.Antoniw@cynulliad.cymru

4 Mai 2020

Annwyl Mick,

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd heddiw, mewn perthynas â Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020, fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 30A.

Mae'r offeryn statudol yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol UE a ddargedwir yn cael ei thrin yn yr un modd â'r ddeddfwriaeth o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Does dim gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-1429-20

Mick Antoniw AC
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddLJC@assembly.wales

1 Mai 2020

Annwyl Mick,

Ysgrifennaf yn dilyn fy mhresenoldeb yn y sesiwn dystiolaeth ar 16 Mawrth, mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Pysgodfeydd y DU. Ymrwymais i ysgrifennu i'r Pwyllgor ynghylch nifer o'r materion a godwyd.

Cymal 23

Roeddwn am egluro un o'r pwyntiau a drafodwyd gennym ynghylch Cymal 23 – pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu ar gyfleoedd pysgota. Yn ystod y broses graffu, gofynnwyd i mi a fyddai diwygiadau yn cael eu gwneud i'r Bil mewn perthynas â'r pryderon a fynegwyd gennyf yn flaenorol ynghylch cymal 23. Hoffwn egluro nad ydym yn ceisio unrhyw ddiwygiadau.

Erys hwn yn fater llinell goch i mi am ei fod yn hollbwysig bod y pŵer hwn yn cael ei arfer mewn ffordd sy'n parchu'r setliad datganoli. Rwyf wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU i nodi ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Fframwaith Pysgodfeydd y DU, neu lwybr amgen os byddwn ein dwy yn cytuno ei fod yn fwy addas, fwy o fanylion am y defnydd bwriadedig o'r pŵer yng nghymal 23 a fydd yn cynnwys atgyfnerthu prosesau ymgynghori. Rwyf wedi atodi llythyr gan Victoria Prentis AS sy'n ailgadarnhau'r ymrwymiad hwn.

Disgwyliwn y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith erbyn diwedd y Cyfnod Gweithredu ac mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos â Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ddatblygu pob elfen o'r Fframwaith. Mae'r ffordd gydweithredol a pharchus y mae pob un o bedair gweinyddiaeth y DU yn cydweithio i gyflwyno Fframwaith Pysgodfeydd y DU yn gysur mawr i mi.

Mecanwaith Datrys Anghydfodau

Trafodwyd mecanweithiau datrys anghydfodau ac rwyf bob amser wedi dadlau pa mor bwysig ydyw bod trefniadau datrys anghydfodau digonol ar waith. Hoffwn roi sicrwydd i chi ynghylch y mater hwn. Mae prosesau osgoi anghydfodau sefydledig sy'n gysylltiedig â strwythurau lefel portffolio eisoes ar waith. Fe'u gweithredir drwy'r Bwrdd Rhaglen Uwch-swyddogion a, lle y mae angen eu huwchgyfeirio i Weinidogion, drwy'r Grŵp Rhyngweinidogol – Yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Materion Gwledig.

Cwmpesir hefyd y trefniadau manwl ar gyfer llywodraethu pysgodfeydd, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, osgoi anghydfodau a datrys anghydfodau, a chaiff trefniadau presennol eu hatgyfnerthu drwy ddatblygu Fframwaith Pysgodfeydd y DU. Mae hyn yn rhan o ddull Fframweithiau Cyffredin y DU, a gefnogir gan bob un o'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.

Mae gan y gweinyddiaethau pysgodfeydd hanes da o gydweithio'n agos i ddatblygu polisïau rheoli pysgodfeydd a datrys anghydfodau. Yn ogystal â'r cyswllt rheolaidd sydd rhyngddynt â Gweinidogion a swyddogion, mae'r pedair gweinyddiaeth pysgodfeydd wedi llofnodi Concordat 2012 ar "Drefniadau Rheoli Cyfleoedd Pysgota a Thrwyddedu Cychod Pysgota yn y Deyrnas Unedig", sy'n nodi ffyrdd o weithio.

Felly, ystyrir nad oes angen cynnwys unrhyw brosesau ychwanegol ym Mil Pysgodfeydd y DU. Hefyd, o ystyried bodolaeth Fframwaith ehangach y DU sy'n arwain at Gydbwyllgor y Gweinidogion, byddai'n amhriodol cyflwyno deddfwriaeth sy'n mynd i'r afael â'r broses o ddatrys anghydfodau ar gyfer polisïau pysgodfeydd yn unig.

Cydsyniad ar gyfer cymalau 28 – 32

Dywedais y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am drafodaethau â Llywodraeth y DU pan oeddent wedi dirwyn i ben ynghylch p'un a oes angen cydsyniad Senedd Cymru (Senedd) ar gyfer cymalau 28 – 32. Mae fy swyddogion wedi trafod hyn gyda Defra ac rydym yn dal i gredu nad oes angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn.

Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol greu cynllun taliadau ond dim ond i ddeiliad trwydded bysgota Seisnig, a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, y bydd y cynllun yn gymwys. Bydd y drwydded bysgota Seisnig yn ddarostyngedig i ddarpariaeth dalfa fwyaf, a bennir gan y Sefydliad Rheoli Morol, ac os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn sefydlu cynllun taliadau i atal gwaredu pysgod, dim ond i gychod pysgota Seisnig sy'n gweithredu o dan drwyddedau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac sy'n rhagori ar y ddarpariaeth dalfa fwyaf sy'n gymwys iddynt, y bydd y cynllun yn gymwys. Felly, mae'n agwedd ar reoleiddio cychod pysgota Seisnig.

Bydd y cyfryw reoliadau yn berthnasol i Gymru a pharth Cymru gan y bydd cychod pysgota Seisnig yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r cyfryw reoliadau pan fyddant yn nyfroedd Cymru, ac yn nyfroedd yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn dal i gredu nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau hyn gan y bydd y cynllun yn rhan o'r broses o reoleiddio cychod pysgota Seisnig, sy'n fater i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Darpariaethau Machlud

Dywedais y byddwn yn ailystyried a ddylai'r Bil gynnwys darpariaethau machlud mewn perthynas â'r darpariaethau i Gymru.

Mae fy safbwynt yn glir. Ystyriaf mai darpariaethau dros dro yw'r darpariaethau hynny i Gymru nad ydynt yn ymwneud â'r fframwaith cyffredin, nes y cyflwynir Bil Pysgodfeydd i Gymru ar yr adeg briodol.

Rydym yn gweithio i gyflwyno Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd sy'n addas at y diben ac mae angen gwneud hyn o fewn amserlenni rhesymol sy'n ein galluogi i fyfyrio ar ganlyniadau Brexit a'r effaith ar ein diwydiant. Mae'r effeithiau yn cael eu gwaethygu nawr gan argyfwng COVID-19. Mae'r angen i ymateb i'r sefyllfa ddigynsail hon yn dangos pam mae angen i ni gadw ein pwerau cyfreithiol yn hyblyg, o ystyried yr angen i ymateb i flaenoriaethau newidiol ac i roi ffocws newydd ar adnoddau yn unol â hynny.

Ar yr adeg hon, er gwaethaf fy ymrwymiad i gyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru yn ystod tymor nesaf y Senedd, ni allaf warantu pryd y caiff y Bil ei gynnwys yn Rhaglen Ddeddfwriaethol y Senedd, ac nid wyf am greu risg y caiff pwerau allweddol y gall fod eu hangen arnom yn y dyfodol eu colli drwy gynnwys darpariaethau machlud ym Mil y DU.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

CC Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Victoria Prentis MP
Parliamentary Under Secretary of State

Department for Environment Food & Rural Affairs

Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

T 03459 335577
defra.helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

Lesley Griffiths AM
House of Commons
London
SW1A 0AA

Your ref: IM/LG/00265/20
Our ref: MC2020/02128/GW

8 April 2020

Dear Lesley,

Thank you for your letter of 29 January to the former Minister of State about the Fisheries Bill. I am replying as the Minister responsible for this policy area. I apologise for the delay in responding. Defra is currently dealing with high volumes of correspondence due to COVID-19. Thank you for your understanding during this challenging time

It was good to speak to you on 9 March and I thank you for your letter of 11 February in which you confirmed that you would begin the legislative consent process, and for the subsequent Memorandum of Understanding (MoU) laid on 12 February.

I echo your view that the constructive collaboration between officials has led to a Bill that delivers effectively for fishing industries right across the UK. I am grateful for your confirmation that you were content with the approach taken to a UK wide framework in the Bill, including through the fisheries objectives, Joint Fisheries Statement, and fisheries management plans. Again, these provisions have been strengthened by officials working together and I would like to thank them.

You raised two further issues. Firstly, the Government of Wales Act (GoWA) 2006. I am aware that officials in the Welsh Office have shared drafting responsibilities of the section 109 GoWA Order with your officials, and that this work is at an advanced stage. The Government is clear that the consent requirements will not apply should the Assembly decide to remove the concurrent powers in the Fisheries Bill from Ministers of the Crown in future. As such I am assured that this matter is close to resolution and will not require an amendment to the Bill.

Secondly, the determination of fishing opportunities, as officials have discussed, the power set out in clause 23, which allows for the Secretary of State to determine fishing opportunities for the UK, is not a devolved matter. The determination of the UK quota cannot, by its nature, be a devolved function and is therefore a function of the Secretary of State. We agree that the implementation of the UK's international obligations is a devolved matter: managing the share of the UK's fishing opportunities allocated to Welsh Ministers in accordance with the UK's international obligations is of course a matter for Wales.

Clause 24 of the Bill obliges the Secretary of State to consult all Administrations before making or withdrawing a determination under clause 23. That said, I am happy to make clear through the MoU, or another route if we both agree that is more suitable, the commitment you previously received that we will set out the circumstances in which the power under Clause 23 will be exercised, and how consultation provisions could be strengthened beyond those set out in the Bill.

An early opportunity for putting consultation and cooperation into practice will come from the need to work together on defining additional quota, and considering how that might be allocated across the four Administrations. We will also work together on the Joint Fisheries Statement and on Fisheries Management Plans. We should also update the UK Quota Management Rules and this would again provide a good opportunity to collaborate.

I hope that these responses have provided you with the assurances you were seeking, and that you can now seek to recommend consent to the Assembly. I am hopeful that the legislative consent motion can be passed within the passage of the Bill through the House of Lords.

I would like to again thank you and your officials for your engagement this far and look forward to working with you as the Fisheries Bill progresses and on other matters too.

I am copying this letter to the Secretary of State for Wales.

Yours sincerely,

Victoria Prentis

**VICTORIA PRENTIS MP**

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon